


Ysgol A

Mae Ysgol A yn ysgol arleuosol gyda 482 o fyfyrwyr rhwng 3 ac 11 oed wedi cofrestru, gan gynnwys 70 o fyfyrwyr meithrin rhan amser. Mae 17 dosbarth o fewn yr ysgol sy'n cynnwys un dosbarth oed cymysg a dau ddosbarth meithrin. Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Dros cyfnod o dair blynedd, mae tua 7% o fyfyrwyr yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim, ac i gymharu gyda cyfartaledd cenedlaethol o 18%, mae hyn yn isel. Mae llai na 10% o fyfyrwyr yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae tua 22% o fyfyrwyr yr ysgol, sy'n agos i'r gyfran genedlaethol o 21%, wedi eu dosbarthu fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.



Sut mae'r ysgol yn ymgysylltu â'r gymuned i gefnogi dysgu?

- Pobl y gymuned yn ymweld â disgyblion o'r meithrin i flwyddyn 6
- Cefnogi'r ysgol mewn diwrnodau sgiliau er enghraifft mae Tesco ac Asda yn cyfrannu ffrwythau i'r disgyblion cael blasu, mae rhieni â arbenigedd yn dod mewn i'r ysgol i ddysgu gwahanol sgiliau i'r disgyblion ac mae LC2 a'r brifysgol yn cyfrannu i'r diwrnod.

Sut mae'r ysgol yn gweithio gyda theuluoedd cyn i blentyn ddechrau yn yr ysgol?

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda theuluoedd er mwyn sicrhau fod y plentyn yn ymgartrefu yn yr ysgol. Un enghraifft o sut mae'r ysgol yn gweithio gyda theuluoedd yw pob hanner tymor cyn i'r plentyn ddechrau, mae'r athrawon yn gwneud cyfarfod croesawi sy'n cyflwyno gwybodaeth/gweithdrefnau i'r rhieni. Mae'r ysgol hefyd yn gwneud cwrs dysgu cymraeg i rieni er mwyn cefnogi'r plentyn pan ddaw i waith ysgol. Yn ychwanegol, mae'r rhieni yn derbyn llyfryn 'Dysgu gyda Sam' sy'n cynnwys geiriau syml cymraeg fel bod y plentyn yn cael rhywfaint o gydnabyddiaeth o'r iaith. 6 wythnos ar ôl dechrau'r ysgol, mae yna gyfarfod wyneb i wyneb gyda'r rhieni i drafod fel mae'r plentyn wedi ymgartrefi, gosod targedau, derbyn pecyn cefnogaeth, 'Tric a chlic' numicon a rhestr o apiau addas.



Dechrau wrth fy nhraed

Hierarchaeth Maslow a Bronfenbrenner

Mae theori Bronfenbrenner yn pwysleisio pa mor bwysig yw dysgu plant mewn amgylcheddau gwahanol. Mae Ysgol A yn cefnogi hyn oherwydd mae'r ysgol yn gwneud ysgol goedwig sy'n golygu fod y disgyblion yn cael y cyfle i gymhwyso eu sgiliau yn y dosbarth mewn amgylchedd gwahanol. Mae Bronfenbrenner yn sôn am sut mae'r gwahanol systemau yn cael effaith ar ddatblygiad plentyn er enghraifft mae'r system feicro yn pwysleisio pa mor bwysig mae dylanwad y rhieni, ysgol, y gymuned a grŵp cyfoedion ar y plentyn. Theori arall mae'r ysgol yma yn cefnogi yw theori Abraham Maslow, mae Maslow yn pwysleisio dylai anghenion unrhyw blentyn cael eu fodloni cyn eu bod yn dysgu. Mae hyn yn golygu fod y teulu, gofalwyr ac y gymuned gyda rôl pwysig o sicrhau fod y plentyn yn cael y gofal sydd angen cyn dechrau'r ysgol. Mae ysgol A yn gwneud yn siwr fod y plentyn yn cael y gofal sydd angen trwy wneud asesiadau rheolaidd i gadw llygaid ar gynnydd y plentyn.

Sut mae'r ysgol yn annog teuluoedd i gefnogi'r gwahanol feysydd dysgu?

Mae'r ysgol yn annog teuluoedd i gefnogi'r gwahanol feysydd dysgu trwy wneud noson agored i ddangos themau'r hanner tymor a gweithgareddau posib. Mae hyn yn cefnogi'r maes o gelfyddydau mynegiadol gan fod y rhieni yn gallu rhannu eu syniadau am weithgareddau posib i wneud yn y dosbarth. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn gwneud noson dargedau er mwyn i'r rhieni cael gwybod sut i ddatblygu gallu'r plentyn, ac mae yna noson rieni er mwyn gweld cryfderau a gwendidau y plentyn a dangos ei datblygiad. Mae'r pwynt yna'n cefnogi'r maes o ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu gan fod y rhieni yn ran pwysig o ddatblygiad cymdeithasol plentyn. 'Weduk' yw ffordd arall mae'r ysgol yn annog teuluoedd i gefnogi'r gwahanol feysydd dysgu oherwydd mae'n gyfle i weld gweithgareddau'r disgyblion yn ddyddiol trwy lluniau. Gwyddoniaeth a thechnoleg yw'r maes mae 'Weduk' yn cefnogi gan fod y rhieni yn gallu dangos lluniau'r plentyn er mwyn dangos eu llwyddiant. Hefyd, mae yna nosweithiau hyfforddiant i rieni o fewn yr ysgol er enghraifft, dysgu cymraeg, diogelwch y wê a gwersi coginio i deuluoedd bregus. Mae'r pwynt yna yn cefnogi iechyd a lles a gwyddoniaeth a thechnoleg sy'n bwysig iawn yn yr oes yma.




Sut mae ysgol A yn gweithio gyda rhieni, gofalwyr a'r gymuned?

Mae ysgol A yn gweithio'n agos gyda rhieni, gofalwyr a'r gymuned, dyma rhai enghreifftiau:

- Gwersi Cymraeg i rieni
- Wythnos "Dewch a rhiant i'r ysgol" sy'n galluogi'r rhiant i weld lefel y plentyn ac i weld gallu'r plentyn
- Gweithio'n agos gyda elusennau
- Gwahod rhieni i'r ysgol i rannu eu harbenigedd gyda'r disgyblion, er enghraifft: arbenigwyr y GIG, pobl tân, pobl sy'n helpu gyda sgiliau bywyd
- Anfon llyfrau gwaith adref pob hanner tymor- rhieni/ gofalwyr yn gallu gweld faint mae'r disgyblion wedi cyflawni
- Rhiant lywodraethwyr sy'n ymweld ar ysgol yn dymhorol ac yn cadw cofnod o sut mae'r ysgol yn gweithredu
- Taflen ar wefan yr ysgol gyda adnoddau i helpu'r rhieni i ddysgu cymraeg a rhifedd ac mae yna cymorth am sut i gefnogi plentyn gyda anghenion dysgu ychwanegol

Yn ogystal â'r pwyntiau uchod, mae'r ysgol hefyd yn gwneud arddangosfeydd celf, boreau coffi, diwrnod sgiliau, polisi drws agored, CAMS- sesiynau galw heibio wythnosol sy'n cefnogi disgyblion gyda pryder a 'Early Help Hub' sy'n cefnogi rhieni.



930 o eiriau